OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2009 Rhif 589 (Cy.56)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Cymru) 2009

Gwnaed - - - -	*10 Mawrth 2009*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*11 Mawrth 2009*
Yn dod i rym - -	*1 Ebrill 2009*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 71, 128, 129, 130 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**).

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Diwygiadau sy'n ymwneud â Ffioedd a Thaliadau Optegol) (Cymru) 2009 a deuant i rym ar 1 Ebrill 2009.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Rheoliadau Optegol" ("*the Optical Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Ffioedd a Thaliadau Optegol) 1997(**2**);

ystyr "y Rheoliadau 1986" ("*the 1986 Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol) 1986(**3**).

Diwygio rheoliad 1 yn y Rheoliadau Optegol

2. Yn rheoliad 1(2) o'r Rheoliadau Optegol (enwi, cychwyn a dehongli), yn y diffiniad o "NHS sight test fee" —

(a) yn lle "£54.67" rhodder "£55.93"; a

(b) yn lle "£19.80" rhodder "£20.26".

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 1997/818 fel y'i diwygiwyd.
(**3**) O.S. 1986/975 fel y'i diwygiwyd.

Diwygio rheoliad 8 yn y Rheoliadau Optegol

3. Yn Rheoliad 8(3)(1)(ii) (cymhwystra — cyflenwi teclynnau optegol) yn lle "£15,050" rhodder "£15,276".

Diwygio rheoliad 19 yn y Rheoliadau Optegol

4. Diwygir Rheoliad 19 o'r Rheoliadau Optegol (gwerth adbrynu taleb ar gyfer ailosod neu drwsio) fel a ganlyn —

(a) ym mharagraff (1)(b), yn lle "£51.90" rhodder "£52.90"; a

(b) ym mharagraff (3), yn lle "£13.40" rhodder "£13.70".

Diwygio'r Atodlenni i'r Rheoliadau Optegol

5.—(1) Diwygir Atodlenni 1 i 3 i'r Rheoliadau Optegol yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Yn Atodlen 1 (codau llythrennau talebau a gwerth taleb ar yr wyneb — i gyflenwi ac ailosod) yng ngholofn (3) o'r tabl (gwerth taleb ar yr wyneb), am bob swm a bennir yng ngholofn (1) o'r tabl isod rhodder y swm a bennir mewn perthynas ag ef yng ngholofn (2) o'r tabl isod yn ei le:

(1) *Swm blaenorol*	*(2)* *Swm newydd*
£35.50	£36.20
£54.00	£55.10
£79.00	£80.60
£178.40	£182.00
£61.40	£62.70
£78.10	£79.70
£101.20	£103.30
£196.10	£200.10
£182.70	£186.40
£51.90	£52.90

(3) Yn Atodlen 2 (prismau, arlliwiau, lensys ffotocromaidd, sbectol fach a sbectol arbennig a theclynnau cymhleth)—

(a) ym mharagraff 1(1)(a), yn lle "£11.60" rhodder "£11.80";

(b) ym mharagraff (1)(1)(b), yn lle "£13.90" rhodder "£ 14.20";

(c) ym mharagraff 1(1)(c), yn lle "£3.90" rhodder "£4.00";

(ch) ym mharagraff 1(1)(d), yn lle "£4.40" rhodder "£4.50";

(d) ym mharagraff 1(1)(e), yn lle "£58.50", "£51.90" a "£28.00" rhodder "£59.70", "£52.90" a "£28.60" yn eu trefn;

(dd) ym mharagraff 1(1)(g), yn lle "£58.50" rhodder "£59.70";

(e) ym mharagraff 2(a), yn lle "£13.40" rhodder "£13.70"; ac

(f) ym mharagraff 2(b), yn lle "£33.90" rhodder "£34.60".